**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**21 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mercher, 21 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Andrew Holgate a Paul Johnson
Aelod cyfetholedig: Sally Ellis

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd: Mike Peers (dros Arnold Woolley)

**YMDDIHEURIAD:** Rheolwr Cyllid Corfforaethol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y Cynghorwyr Patrick Heesom a Billy Mullin fel sylwedyddion.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr: Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Archwilio Mewnol; a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu (ar gyfer cofnod rhif 31)

Prif Swyddog, Tai ac Asedau (ar gyfer cofnod rhif 32)

Rheolwr Cyllid Dros Dro (Cyfrifyddiaeth Dechnegol) (ar gyfer cofnod rhif 33)

Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Rheolwr Cyllid Pensiynau (ar gyfer cofnod rhif 35)

Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth a'r Uwch Archwilydd (ar gyfer cofnod rhif 36)

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru
Matthew Edwards a Gwilym Bury

## 28. DIRPRWYO

Yn unol â'r gofynion Cyfansoddiadol, cytunodd y Pwyllgor i ganiatáu'r i'r Cynghorydd Mike Peers ddirprwyo i'r Cynghorydd Arnold Woolley. Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Peers wedi ymgymryd â'r hyfforddiant archwilio angenrheidiol.

**PENDERFYNWYD:**

Caniatáu'r i'r Cynghorydd Mike Peers i ddirprwyo yn y cyfarfod.

## 29. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cadeirydd, y Cynghorwyr Holgate a Johnson, a Sally Ellis, gysylltiad personol yn Eitem 8 ar y Rhaglen gan eu bod yn aelodau o Gronfa Bensiynau Clwyd.

O ran eitem 9 ar y rhaglen, datganodd y Cadeirydd a Sally Ellis gysylltiad personol ag Ysgol Gymunedol Sirol Penarlâg ac Ysgol Alun yr Wyddgrug, yn y drefn honno.

## 30. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018. Gofynnodd y Cynghorydd Dunbobbin am gael cofnodi ei ymddiheuriadau.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiad, cymeradwyo'r cofnod fel gwir gofnod a chawsant eu harwyddo gan y Cadeirydd.

## 31. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Cyflwynodd Gwilym Bury Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a oedd yn crynhoi'r gwaith archwilio a rheoleiddio yr ymgymerwyd ag ef yn y Cyngor ers yr adroddiad diwethaf a gyhoeddwyd ym Medi 2017. Roedd yr adroddiad, nad oedd yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol, yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus.

Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod y pedwar cynnig gwirfoddol newydd ar gyfer gwella, a allai wella effeithiolrwydd y swyddogaeth Drosolwg a Chraffu. Tra bo gwaith yn mynd rhagddo ar yr awgrymiadau hynny, roedd y Cyngor hefyd yn ymgymryd â hunanasesiad o berfformiad corfforaethol cyffredinol y gellid ei ddefnyddio i gynorthwyo SAC yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Johnson at yr her o gyflawni gwelliant parhaus yng ngolau llai o gyllid. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y datganiadau gwydnwch ar gyfer bob portffolio gwasanaeth, a rannwyd yn ystod proses y gyllideb, wedi nodi'r risgiau o ran gwneud rhagor o doriadau i'r gyllideb y tu hwnt i'r rheiny a nodwyd eisoes. Dywedodd bod hunanwella yn dal i fod yn amcan parhaus fel y dangoswyd yn hanes blaenorol y Cyngor.

Cyfeiriodd Sally Ellis at argymhellion yr adroddiad cenedlaethol, yr oedd rhai ohonynt yn ymwneud â meysydd adroddiadau 'coch' ar gyfer Sir y Fflint. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y byddid yn mynd i'r afael â phob un o'r meysydd fel rhan o'r rhaglen waith Archwilio Mewnol.

Dywedodd y Prif Weithredwr, er nad oedd gofyn ymateb i argymhellion yr adroddiad cenedlaethol, mai ymagwedd y Cyngor oedd eu hystyried er mwyn nodi unrhyw bwyntiau dysgu er mwyn cryfhau trefniadau presennol ymhellach.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu y byddai'r adroddiad blynyddol ar arolygiadau allanol, oedd ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf, yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod adroddiadau cenedlaethol yn ogystal â rhai lleol yn cael eu nodi.

Diolchodd y Cynghorydd Johnson i'r swyddogion am gyfarfod cadarnhaol y Pwyllgor Cyswllt Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor wedi'u sicrhau ynghylch Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2017/18.

## 32. GWAREDIAD ASEDAU A DERBYNIADAU CYFALAF A GYNHYRCHWYD 2017/18

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad blynyddol a oedd yn crynhoi gwarediadau tir a derbyniadau cyfalaf a wireddwyd yn ystod 2017/18. Roedd derbyniadau cyfalaf yn cael eu halinio i gyfrannu tuag at raglen y Cyngor o gynlluniau cyfalaf, sy'n cynnwys rhai ar raddfa fawr ac ar raddfa fechan ar draws pob portffolio. Fe'u hatgoffwyd o'r goblygiadau o ran refeniw o wariant cyfalaf, ynghyd â'r gostyngiad mewn cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers am ddadansoddiad o'r costau o ran y rhestr o warediadau asedau, gan nad ymddengys ei fod yn cynnwys safle penodol. Eglurodd y Prif Swyddog nad oedd y gwarediad dan sylw wedi'i dderbyn yn llawn gan ei fod yn seiliedig ar ei gyflawni fesul cam, a bod y wybodaeth wedi'i chrynhoi am resymau sensitifrwydd masnachol. Ceisiodd y Cynghorydd Peers wybodaeth am werth llawn yr eitem honno ac i ba raddau y byddai'r Cyngor yn manteisio ar yr ymagwedd fesul cam. Dywedodd y Pwyllgor Gwaith y byddai papur briffio preifat yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.

Roedd Sally Ellis yn cofio'r drafodaeth am yr adroddiad yn 2017 o ran yr angen i adolygu'r meini prawf yn rheolaidd ar gyfer nodi derbyniadau cyfalaf posibl, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd gwneud y gorau o gymorth ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Dywedodd y Prif Swyddog bod canfyddiadau adolygiadau yr ymgymerwyd â hwy ar draws portffolios yn cael eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn asesu addasrwydd safleoedd ar gyfer gwaredu neu fuddsoddi, yn dibynnu ar rymoedd y farchnad yn yr ardaloedd hynny. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o ystadau diwydiannol tra bo ystadau amaethyddol yn destun adolygiad parhaus.

Yn dilyn y wybodaeth a rannwyd, cytunwyd nad oedd angen mwyach am yr adroddiad diweddaru ar y meini prawf, oedd i fod i gael ei gyflwyno ym mis Ionawr.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r derbyniadau cyfalaf rhagamcanol sy'n cefnogir Rhaglen Gyfalaf yn ffurfio rhan o ddiweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y Strategaeth Gyfalaf a oedd i fod i gael ei diweddaru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

**33. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19 A DIWEDDARIAD CHWARTEROL 2**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Dros Dro (Cyfrifyddiaeth Dechnegol) Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys drafft ar gyfer 2018/19 cyn ei ystyried gan y Cabinet. Rhannwyd diweddariad ar Chwarter 2 er gwybodaeth.

Roedd crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn amlygu'r cynnydd yng nghyfradd sylfaenol y Bank of England a newidiadau rheoleiddiol sydd ar ddod. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r sefyllfa fenthyciadau hirdymor, ac ymgymerwyd â benthyca tymor byr yn unol â'r strategaeth. Byddai ymagwedd wahanol i'r modd y mae Cronfeydd Marchnad Arian yn cael eu diffinio yn lleihau'r risg o ran y buddsoddiadau hynny.

Roedd diweddariad ar Chwarter 2 yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran gweithgareddau rheoli'r trysorlys, gydag atodiad a oedd yn nodi dadansoddiad o fuddsoddiadau a benthyciadau. Fel rhan o strategaeth y Cyngor, roedd sesiwn hyfforddi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer yr holl Aelodau wedi'i drefnu ar gyfer 29 Ionawr 2019.

Holodd y Cynghorydd Peers ynghylch y llog o £6.4m sy'n daladwy ar fenthyciadau a ddangosir ym mharagraff 5.04. Eglurodd y Rheolwr Cyllid Interim bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ganol blwyddyn a bod y mwyafrif o'r taliadau'n adlewyrchu penderfyniadau hanesyddol o ran benthyciadau. Ymgymerwyd ag adolygiadau gydag ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys yn ystyried amodau'r farchnad ar yr adeg honno. Roedd y mwyafrif o'r benthyciadau'n daliadau aeddfedu.

Dywedodd y Cynghorydd Peers ei bod yn bwysig deall y gost i'r Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr bod hwn yn destun cymhleth. Dywedodd bod graddau'r craffu ar fenthyciadau yn llawer mwy cadarn a thryloyw erbyn hyn, a bod rhaid i unrhyw strategaeth ymadael ar gyfer ymrwymiadau benthyciadau fod yn sensitif i amodau'r farchnad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Johnson, rhoddwyd eglurhad o'r mathau o sefydliadau yr oedd y Cyngor yn buddsoddi gyda hwy ynghyd â'r newid i Ddiwygio Marchnad yr UE a oedd yn lleihau ymhellach y risg o fuddsoddi gyda Chronfeydd Marchnad Arian. Yn ystod y drafodaeth ar effaith bosibl Brexit, eglurwyd nad oedd unrhyw effaith ar fenthyciadau presennol gan fod yr ansicrwydd yn ymwneud â marchnadoedd i'r dyfodol. Roedd y daflen a rannwyd â'r Cyngor ym mis Hydref wedi amlinellu'r risgiau posibl i'r Cyngor ac roedd swyddogion yn cyfrannu at waith cenedlaethol ar rannu risg ac ymarfer.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys drafft 2018/19 yn cael ei argymell i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018.

## 34. DEFNYDDIO YMGYNGHORWYR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o wariant ar ymgynghorwyr i sicrhau cywirdeb y ffigyrau ar y cyfeirlyfr cyffredinol ynghyd â chydymffurfio â'r prosesau cytunedig.

Holodd Sally Ellis am yr adolygiadau ôl-aseiniad ar gyfer achosion busnes ymgynghoriaethau yn 2017/18 a rhoddwyd gwybod y byddai'r rhain yn cael eu gwneud ar ôl cwblhau'r prosiectau hynny. Roedd adolygiadau ar gyfer ymgynghorwyr a gyflogwyd yn 2016/17 wedi cael eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cael ei sicrhau bod gwariant ar ymgynghorwyr yn cael ei reoli a bod y Cyngor yn cyflawni gwerth am arian.

## 35. TREFN LYWODRAETHOL CRONFA BENSIWN CLWYD

Cyflwynodd Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd adroddiad i roi sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethol Cronfa Bensiwn Clwyd (CBC) a gwerth am arian o ran ffioedd rheolwr y gronfa, fel y gofynnwyd yn y cyfarfod blaenorol.

Roedd y diagram yn yr adroddiad yn dangos y strwythur llywodraethu presennol a oedd wedi'i ehangu dros amser er mwyn cyflawni'r gofynion. Eglurwyd bod ffioedd a bennwyd gan yr ymgynghorydd buddsoddi ar y Panel Ymgynghorol yna'n destun cytundeb gan Bwyllgor CBC, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Pensiynau Statudol. Tra bo pob awdurdod yn pennu ei strategaeth ei hun, byddai'n cael ei weithredu drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru a oedd yn darparu'r platfform ar gyfer cronni buddsoddiadau ar draws yr 8 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yng Nghymru.

Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd y byddai ef a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn cefnogi trefniadau llywodraethu a bod gwerthusiad allanol o lywodraethu a pherfformiad. Oherwydd cymhlethdodau'r testun, rhoddwyd lefel uchel o hyfforddiant a chymorth i Bwyllgor CBC ymgymryd â'i rôl o ran y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynghylch rheoli'r Gronfa. Adroddodd y Prif Weithredwr bod ochr fuddsoddi rheoli trysorlys CBC yn perfformio'n dda a bod gwelliant cyson ar yr ochr weinyddol.

O ran yr ymagwedd tuag at reoli ffioedd, siaradodd Rheolwr CBC am lefel y sgiliau a fynnir gan ymgynghorwyr buddsoddi ynghyd â phenderfyniadau allweddol ar amryw ffactorau er mwyn cyflawni'r cydbwysedd iawn o ran risg ac er mwyn diwallu anghenion i'r dyfodol. Roedd adolygiad yr Actiwari yn pennu'r gost yr oedd angen i gyflogwyr ei thalu ar gyfer buddion aelodau i'r dyfodol ac unrhyw daliadau diffyg ar gyfer gwasanaeth yn y gorffennol, yr oedd yr ymgynghorydd buddsoddi yn ystyried wedyn sut i'w gyflawni orau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod CBC wedi mabwysiadu awydd i gymryd risg uchel gyda llwyddiant oedd wedi'i brofi, ac roedd yn gobeithio y byddai pwysau o ran cost ar gyfraniadau cyflogwr yn cael ei reoli.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad, gofynnodd Sally Elis sut y gallai'r Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a ph'un a fyddai hyfforddiant o gymorth. Dywedodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog mai rôl y Pwyllgor oedd bodloni ei hun â lefel y wybodaeth a'r gefnogaeth a roddir i Bwyllgor CBC a'r herio gan y Bwrdd Pensiynau.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Johnson ynghylch y rhestr o ymgynghorwyr buddsoddi, cytunodd y swyddogion i gylchredeg copi o'r adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys y wybodaeth hon. Rhoddwyd eglurhad hefyd ynghylch y trefniadau ar gyfer contractau.

O ran y rhestr o ffioedd rheoli cronfeydd, cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y gyfradd ddychwelyd ar gyfer asedau credyd a oedd yn is na'r targed. Eglurodd y swyddogion y nod i arallgyfeirio ar draws gwahanol ddosbarthiadau asedau ynghyd â rôl y tri is-grŵp arbenigol o ran cefnogi'r Panel Ymgynghorol.

Yn dilyn trafodaeth gynharach, dywedodd Sally Ellis, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, y byddai angen gwybodaeth am lefel yr hyder/gwybodaeth ar Bwyllgor CBC a ph'un a oedd yr oruchwyliaeth gan y Bwrdd Pensiynau'n gweithio'n dda.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Pensiynau bod yr adroddiadau manwl rheolaidd i Bwyllgor CBC sy'n cynnwys gwybodaeth o ran llywodraethu, cofnodion, cynlluniau hyfforddi ac ati, ar gael i gyd ar wefan y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog y byddai swyddogion yn ystyried amlder adroddiadau a'r posibilrwydd o gyflwyniad yn y dyfodol ar drefniadau llywodraethu er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd i'r Pwyllgor, heb ddyblygu gwaith y Bwrdd Pensiynau.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a darparu adborth i Bwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd.

## 36. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol ddiweddariad ar gynnydd yr adran Archwilio Mewnol gan gynnwys newidiadau i'r cynllun archwilio, olrhain camau gweithredu ac ymchwiliadau. Fel y gofynnwyd yn y gweithdy hwyluso diweddar, roedd trosolwg o'r sicrwydd archwilio wedi'i gynnwys bellach o fewn yr adroddiad hwn.

Ers Mehefin 2018, roedd tair barn sicrwydd 'Oren Coch' neu 'Rai' barnau sicrwydd wedi'u cyflwyno ar gyfer Gweinyddu Pensiynau, yr Uned Caffael Corfforaethol ar y Cyd a'r Gyflogres. Oherwydd pryderon gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghylch camau gweithredu a oedd heb eu cyflawni o ran yr ail ohonynt, roedd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth yn bresennol i ddarparu diweddariad pellach.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr sicrwydd y gwnaed cynnydd da o ran y camau gweithredu ers llunio’r adroddiad. Eglurodd bod nifer o’r camau’n cynnwys sawl elfen yr oedd y mwyafrif wedi’u cwblhau a bod y tîm Cyflogres wedi caniatáu ar gyfer cyfnod o brofi i fodloni eu hunain bod y camau’n gadarn ac yn effeithiol, cyn eu cadarnhau’n ffurfiol. Aeth ymlaen i adrodd ar welliannau pellach a gyflawnwyd drwy gyfuno cronfeydd data yn un.

Eglurodd Sally Ellis bod y pryderon wedi codi o rai materion a oedd heb eu datrys o archwiliad 2016/17, yn enwedig y rheiny gyda goblygiadau ariannol, ac y byddai o fudd i’r Pwyllgor gael gwybod am ddyddiadau cwblhau. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth bod y ddau fater a oedd ar ôl yn ymwneud â gweithdrefnau a oedd wedi’u dogfennu a dangosyddion perfformiad. Gwnaed cynnydd da ar y ddau ac roedd y dyddiad cau wedi’i ymestyn hyd at ddiwedd Mawrth 2019 i sicrhau bod y canlyniadau’n dderbyniol ar gyfer yr archwiliad nesaf.

Siaradodd y Prif Weithredwr am y goblygiadau sylweddol o ran y llwyth gwaith o fewn y Gyflogres o ran delio â newidiadau mewn blynyddoedd diweddar. Dywedodd y byddai swyddogion yn cytuno ar ddyddiadau cwblhau realistig ac yn cynghori’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn unol â hynny.

Yn ystod y cyfnod, cyflwynwyd un farn sicrwydd ‘Coch’ neu ‘Gyfyngedig’ ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ymgymerwyd â’r archwiliad ym Mawrth 2018 i baratoi ar gyfer gweithredu’r rheoliadau newydd ym mis Mai. Rhoddodd yr Uwch Archwilydd grynodeb o nod y rheoliadau newydd lle aethpwyd i’r afael â chydymffurfiaeth drwy bum ffrwd waith. Rhoddodd sicrwydd bod ei weithrediad ar draws y Cyngor wedi’i flaenoriaethu gan Brif Swyddogion ac Uwch Reolwyr, gyda chynnydd ar waith o ran cynlluniau gweithredu ar gyfer bob portffolio. Cymerwyd ystod o gamau cadarnhaol, gan gynnwys penodi Swyddog Cydymffurfiaeth dynodedig ynghyd â rôl allweddol y tîm Gwybodaeth Llywodraethu, ynghyd â hyfforddiant helaeth a chyfathrebu â’r gweithlu. Roedd barn gyffredinol ar yr archwiliad yn adlewyrchu’r ansicrwydd o ran dibynnu ar gyflenwyr trydydd parti i roi sicrwydd bod eu systemau’n cydymffurfio a’r GDPR.

Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ddiweddariad ar y camau i fynd i’r afael â phob un o ganfyddiadau’r archwiliad, fel y nodwyd yn yr adroddiad ar wahân ar yr agenda. O ran gallu systemau meddalwedd a ddarperir yn allanol sy’n dal data personol i gyflawni rhwymedigaethau’r GDPR, roedd 61 bellach yn cydymffurfio’n llawn neu yn y broses o wneud hynny, tra bo gwaith yn parhau ar y saith a oedd yn weddill a ystyriwyd yn rhai risg isel. Adroddwyd cynnydd da hefyd ar yr adolygiad o ffurflenni i egluro’r defnydd o ddata personol.

Siaradodd y Prif Weithredwr am gyfraniad gwerthfawr y gwaith archwilio o ran gwneud cynnydd sylweddol i gyflawni graddfa rheoliadau’r GDPR.

Eglurodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y bu’r archwiliad o fudd hefyd o ran helpu i ganfod arbedion effeithlonrwydd posibl y gellid eu hystyried yn y dyfodol.

Cododd y Cynghorydd Peers bryder dros ddiogelwch slipiau tâl Aelodau a roddir mewn blychau gohebiaeth yn yr adran Gwasanaethau Aelodau, yn enwedig y tu allan i oriau gwaith. Dywedodd y Prif Swyddog, tra bo opsiynau

eraill wedi'u harchwilio, roedd yr arfer presennol o bostio slipiau tâl wedi'u hargraffu a'u selio yn fwy cost effeithiol. Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd efallai y byddai'n well gan Aelodau sy'n rhannu pryderon gasglu eu slipiau tâl yn bersonol gan y swyddogion yn y Gwasanaethau Aelodau.

Wrth grynhoi gweddill yr adrannau yn yr adroddiad cynnydd, eglurodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, er mwyn lleihau dyblygu o ran diweddariadau ar olrhain camau gweithredu, dangoswyd y rheiny nad oeddynt wedi'u cwblhau ac a oedd dros chwe mis oed yn Atodiad G. Byddai diweddariad ar wahân yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cynnydd nesaf ar y camau hynny nad oeddynt heb eu cwblhau ond bod ganddynt gyfnod hwy ers y dyddiad cwblhau gwreiddiol.

Holodd y Cynghorydd Dolphin am lefel gallu canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu i ymdopi â gofynion, yn enwedig yn ystod amseroedd cinio. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd modd gwneud sylwadau ar yr enghraifft a roddwyd ar y diwrnod arbennig hwnnw ac y dylid codi unrhyw bryderon gyda'r Prif Weithredwr (Llywodraethu) er mwyn mynd ar eu trywydd os oedd angen. Mewn ymateb i bryderon am Orfodaeth Cynllunio, awgrymodd y dylid cyfeirio unrhyw faterion o ran perfformiad at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd. Cytunodd i fynd ar drywydd diweddariad ar gynnydd o ran fersiwn terfynol y cytundeb cyfreithiol ar gyfer Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas.

Eglurodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r statws blaenoriaeth a gyflwynwyd ar adeg yr archwiliad, a byddent yn parhau heb eu newid yn ystod y broses o olrhain gweithredu.

O ran Gorfodaeth Gynllunio, dywedodd y Cynghorydd Peers ei bod yn bwysig i'r archwiliad gadw golwg ar ddyddiadau cyfeirio a pheidio â gadael iddynt gyrraedd y dyddiad terfyn pryd y gellid eu dileu. Wrth gydnabod y materion, cytunodd y Prif Weithredwr i gysylltu â'r tîm Cynllunio a threfnu i gael adroddiad diweddaru ar gyfer y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd am gael ystyried y testun hwn hefyd gan y Pwyllgor Cyswllt Archwilio a Chraffu a oedd newydd ei ffurfio.

O ran Cynllun Gweithredol 2018/19, amlygodd y Rheolwr Archwilio newidiadau, gan gynnwys gohirio gwaith ar ddau faes lle nad oedd angen ei wneud ar hyn o bryd.

Siaradodd y Prif Weithredwr am gynnydd yn y galw am waith ymgynghorol gan y tîm Archwilio Mewnol, a oedd yn profi i fod o werth, fel y dangoswyd yn y gwaith o brofi Datganiadau Dull ar adroddiadau cyllideb diweddar.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Derbyn yr adroddiad; a

(b) Bod yr Aelodau yn cael eu sicrhau y bydd y camau adferol a nodwyd o ran y GDPR wedi, ac yn mynd i fynd i'r afael â'r gwendidau o ran rheolaeth pe gweithredir hwy.

## 37. HUNANASESIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol yr adroddiadau ar ganlyniadau'r hunanasesiad yr ymgymerwyd ag ef gan y Pwyllgor ym Medi 2018 yn ystod gweithdy hwyluso. Roedd canlyniadau cyffredinol yr hunanasesiad yn gadarnhaol a byddent yn cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19. Adroddwyd y gwnaed cynnydd da ar y cynllun gweithredu.

Mynegodd y Cynghorydd Johnson ei werthfawrogiad i swyddogion am y gweithdy cadarnhaol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r canlyniadau a'r cynnydd ar y camau gweithredu.

## 38. CYLCH GORCHWYL A SIARTER Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol yr adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y newidiadau a wnaed i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio i adlewyrchu'r arferion gweithio presennol a maes cyfrifoldeb newydd. Ceisiwyd barnau hefyd ar y drafft o Siarter y Pwyllgor Archwilio a ddatblygwyd i ddogfennu rôl y Pwyllgor o fewn fframwaith Llywodraethu'r Cyngor, ynghyd â'r cydlynu rhwng y Pwyllgor a Throsolwg a Chraffu. Byddai'r ddwy ddogfen yn cael eu hystyried gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cylch Gorchwyl; a

(b) Chymeradwyo Siarter y Pwyllgor Archwilio.

## 39. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol adroddiad diweddaru ar y cynnydd ar y camau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd blaenorol. Fel diweddariad pellach, eglurodd bod y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 40. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol ar gyfer ei hystyried, gan nodi cytundeb cynharach y byddai'r eitem ar Warediadau Asedau a Derbyniadau Cyfalaf yn cael ei dileu o gyfarfod mis Ionawr.

Pan holodd y Cynghorydd Johnson ynghylch eitem ar risgiau strategol, eglurodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y byddai hyn yn ffurfio rhan o'r Diweddariad ar Reoli Risg a gyflwynir ym mis Ionawr. Cyfeiriodd y Prif Swyddog

at drafodaeth yn y Pwyllgor Cyswllt Archwilio a Chraffu yn ddiweddar a oedd yn cysylltu â gwaith ar risg a'r gofrestr risg.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; ac

(b) Awdurdodi'r Rheolwr Archwilio Mewnol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, fel y bo angen.

## 41. PRESENOLDEB GAN AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a gorffennodd am 12.10pm

……………………………………..
**Cadeirydd**